Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch yn rhinwedd fy swydd fel y prif swyddog heddlu plismona ffyrdd. Un o'n cyfrifoldebau ni ydy mynd ati i ymdrin â cherbydau nad oes ganddynt bolisi yswiriant dilys yn ôl y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron.

Dangosir eich bod yn geidwad cofrestredig y cerbyd isod, a welwyd yn ardal Gogledd Cymru ar

Cofrestriad Cerbyd:
Gwneuthuriad y Cerbyd:
Model y Cerbyd:

Yn ôl y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron, nid oes gan y cerbyd hwn bolisi yswiriant cyfredol. Os ydych yn meddwl bod eich cerbyd *wedi'i* yswirio, gallwch wirio'r data sydd gan y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron ar gyfer eich cerbyd rŵan yn hawdd, am ddim, ar www.askMID.com neu drwy sganio'r cod QR isod.

Yr oll rydych ei angen ydy rhif cofrestru'r cerbyd, sydd wedi'i argraffu wrth frig y llythyr hwn.

**NID ydy'r llythyr hwn yn hysbysiad o fwriad i erlyn** ac mae'n cael ei roi er gwybodaeth i chi, fel gallwch sicrhau fod yswiriant dilys ar eich cerbyd cyn parhau i'w ddefnyddio ar y ffordd.

Os nad ydych bellach yn Geidwad Cofrestredig y cerbyd hwn, sicrhewch eich bod wedi hysbysu'r DVLA yn ysgrifenedig i'r perwyl hwn. Mae hyn er mwyn iddynt allu diweddaru eu cofnodion.

Mae sawl rheswm pam y gall y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron ddangos nad oes yswiriant ar gerbyd. Gall y rhain gynnwys gwallau gweinyddol, rhifau cofrestru anghywir ar dystysgrifau, taliadau hwyr, polisïau wedi'u canslo neu bolisïau annilys, neu oherwydd nad oes polisi. Gall rheswm cyffredin arall fod eich bod newydd brynu yswiriant newydd, sydd ddim eto wedi'i roi ar y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron.

**Beth ddylwn ei wneud rŵan?**

Os nad ydy'r Gronfa Ddata Yswiriant Moduron yn dangos nad oes yswiriant ar eich cerbyd, peidiwch â mynd i banig! Wrth gwrs, mae'n bosibl fod gwall gweinyddol. Buaswn yn eich annog chi gysylltu â'ch cwmni yswiriant cyn gynted â phosibl er mwyn gwirio os oes

ganddynt y manylion cywir ar eich cyfer chi a'ch cerbyd a'u bod wedi cofnodi hyn ar y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron. Os ydych yn ymwybodol nad ydy eich cerbyd wedi'i yswirio, rhaid i chi sicrhau eich bod yn cael yswiriant cyn y caiff ei ddefnyddio ar y ffordd eto.

**Pam ddylwn i weithredu?**

Os ydych mewn gwrthdrawiad a heb yswiriant, gallwch fod yn atebol am y costau (gan gynnwys difrod a'r costau sy'n gysylltiedig ag anafiadau i unrhyw un o dan sylw). Mae gyrwyr heb yswiriant yn ychwanegu oddeutu £30 at gost polisi blynyddol y bobl hynny sy'n glynu at y gyfraith.

Mae'r heddlu'n defnyddio'r data ar y Gronfa Ddata Yswiriant Moduron er mwyn ysbrydoli eich gweithgarwch, gan gynnwys stopio cerbydau. Os stopir cerbyd gan yr heddlu ar ffordd neu fan cyhoeddus heb bolisi yswiriant dilys, gellir ei atafaelu o dan Adran 165 o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd a pheidio ei ryddhau hyd nes y cyflwynir polisi yswiriant dilys ac y telir ffi ryddhau. Mae cerbydau sydd heb eu hawlio ar ôl 14 diwrnod yn cael eu gwaredu er mwyn adennill costau casglu.

Ar ben hyn, gall y drosedd o beidio cael yswiriant dilys arwain at 6 i 8 pwynt cosb mewn Llys Ynadon gyda'r posibilrwydd o waharddiad a dirwy anghyfyngedig. Os ymdrinnir â'r drosedd ar ochr ffordd drwy gosb benodedig, ceir dirwy o £300 a chwe phwynt cosb.

**Pam ydym wedi gweithredu?**

Yn Heddlu Gogledd Cymru, rydym yn credu'n gryf mai'r ffordd orau ymlaen wrth ymdrin ag achosion fel chi ydy gweithio gyda gyrwyr er mwyn nodi lle nad oes yswiriant o bosibl a'u gwahodd i unioni'r mater heb orfod erlyn.

Gwnawn barhau i wirio eich cerbyd ar ein cronfa ddata er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth. Unwaith mae hyn yn digwydd, bydd eich cerbyd yn cael ei dynnu o'n cronfa ddata.

Unwaith rydych wedi gwirio'r sefyllfa o ran eich yswiriant, ac wedi gweithredu yn ôl yr angen, **nid oes angen i chi gysylltu â ni**. **Ni ddylech** anfon unrhyw wybodaeth bersonol atom ni, fel y dogfennau polisi, neu fantolenni er mwyn profi taliad. Mae'r rhain yn ddogfennau personol i chi. Felly, ni fyddem fyth yn gofyn i chi eu harolygu nhw yn y modd hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, peidiwch â phetruso cysylltu â ni drwy e-bost gyda "Tutelage INS" fel y pwnc at

Yr eiddoch yn gywir

TUTELAGE